Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, Mehefin 13eg, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Richard Wallace, Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies, Cyng Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Cyng Dawn Wallace, Cyng Charlotte Leadbeater, Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Dim

Cof 73 / Mehefin / 07 Enwebu Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Cynigiwyd y Cyng Fran Murphy gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 74 / Mehefin / 07 Enwebu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Cynigiwyd y Cyng Charlotte Leadbeater gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 75 /Mehefin / 07 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried

E/16179 Estyniad un llawr i gynnwys toiled i fyngalo sydd eisoes yn bodoli
5, Heol Rhosmaen
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

E/16180 Estyniad deulawr mewn anheddle yn
35, Heol Newydd
Sylw : Dim gwrthwynebiad

E/16181 Newid Gwesty Gwely a Brecwast yn 2 Fflat
Sylw : Dim gwrthwynebiad

E/15949 Llunio maes parcio ychwanegol a defnydd dros dro ar gyfer pum carafán am 18 mis yng Nghae William, Heol Caerfyrddin.
Sylw: Yn dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol y sylwadau yw :

- **Dim gwrthwynebiad i'r maes parcio**
- **Dim gwrthwynebiad i'r carafannau dros dro cyhyd a'u bod yn cael eu symud oddi yno o fewn 18 mis**
- **Carafannau i'w gosod fel ag y gwelir hwy yn y cais gwreiddiol.**

E/16258/ E/16259 Gosod rheilen llaw newydd wrth y fynedfa a gosod 2 Gyddwysydd tymheru awyr allanol,
Toast, llawr gwaelod, 4, Stryd y Brenin
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

E/16332 Newid defnydd, preswyl i swyddfa a mân newidiadau i du fewn a thu allan Tŷ'r Drenewydd, Parc Dinefwr
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

E/16454 Mynedfa i gerbydau a rheilins newydd ar y ffin
4, Heol Latimer
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

E/16451 Newid defnydd i Wely a Brecwast. Bydd yr ystafelloedd G&B ar y llawr gwaelod gyda dwy ar y llawr cyntaf, 7, Heol Tomos
Sylw :Pryder os nad yw materion parthed parcio a golygfa trigolion lleol yn cael ystyriaeth. Cred y Cyngor yw bod y lôn sydd y tu cefn yn lôn breifat i'w defnyddio gan drigolion

E/16452 Anheddle Newydd (Materion yn ymwneud â TG/04636) Wrth ymyl Frondeg, Heol Caerfyrddin.
Sylw : Pryder ynghylch yr effaith weledol ar yr hyn yw'r fynedfa i'r Dref. Mae coed yn cuddio'r adeilad presennol.
Gofyn am ymweliad safle.

Cof 76 /Mehefin / 07 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio

Rhoddwyd y cais cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC
E/ 1594 Newid defnydd y llawr gwaelod o fod yn bopty i le bwyd a diod
44, Heol Rhosmaen.
Gwrthodwyd y ceisiadau canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC
E/15640 arwydd sy'n ymestyn allan ar gyfer 109, Heol Rhosmaen.
E/15642 Anheddle yn seiliedig ar angen lleol ar dir yn 2, Bythynnod Coch, Heol Caerfyrddin

Cof 77 / Mehefin / 07 Ni thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 78 / Mehefin / 07 Trafnidiaeth a Phriffyrdd
Llythyr gan Trevor Sage yn gwrth-ddweud dyddiad y cyfarfod a drefnwyd gyda Mr John McEvoy. Y Clerc i ymchwilio i hyn.

Cof 79 / Mehefin / 07 Adroddiad Llwybrau Troed.

Cyflwynodd y Swyddog Technegol adroddiad ysgrifenedig o'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y llwybrau troed dros y flwyddyn aeth heibio, ynghyd â gwaith a wnaed gan GSC.

Cof 80/ Mehefin / 07 Gohebiaeth
1. Cais am adroddiad cynnydd ar brosiect Neuadd y Sir. Clerc i ofyn am ragor o fanylion.
2. Ateb oddi wrth Richard Workman, CSC mewn perthynas â thaliadau parcio ceir.
3. Newid enw tŷ – 39, Parc Pencrug i'w adnabod fel Brynawelon.
4. LlCC – Llwybr y ffordd osgoi sy'n cael ei ffafrio. I'w osod ar Agenda cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Cof 81 / Mehefin / 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Adroddwyd gan ddefnyddiwr cadair olwyn bod ramp sydd wedi'i osod ger yr arhosfan bws y tu allan i'r eglwys yn achosi rhwystr. Y Clerc i ysgrifennu at GSC.
Cynigiwyd pleidlais o ddiolch i'r Cyng Roy Davies gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd hyn gan y Cyng Charlotte Leadbeater am ei flwyddyn fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm